OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 582 (Cy.54)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*27 Chwefror 2007*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraffau 1(1) a 5(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freinir bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Atafaelu enillion: swm i'w ddidynnu

2.—(1) Yn lle Atodlen 4 i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992(**3**) rhodder yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys o ran gorchymyn atafaelu enillion a wnaed cyn 1 Ebrill 2007.

(**1**) 1992 p.14.
(**2**) Trosglwyddwyd y pŵer i wneud rheoliadau o dan baragraffau 1(1) a 5(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 o ran Cymru oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) O.S. 1992/613.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

27 Chwefror 2007

(**4**) 1998 p.38